


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Deisebau

## Cyflwyno deiseb

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

## Cychwyn deiseb

Mae'n hawdd cychwyn deiseb. Yr unig bethau sydd eu hangen arnom yw:

- Manylion yr hyn y mae eich deiseb yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w wneud
- Ychydig o wybodaeth amdanoch chi, fel y gallwn drafod y ddeiseb gyda chi a rhoi gwybod i chi beth yw hynt a helynt eich deiseb.

Drwy lenwi'r ffurflen hon, byddwch yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ystyried eich cynnig am ddeiseb a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Bydd un o aelodau'r tîm deisebau'n cysylltu â chi ymhen ychydig ddyddiau ar ôl cael eich ffurflen er mwyn trafod y camau nesaf.

Os ydych yn cael unrhyw drafferthion wrth lenwi'r ffurflen hon, neu os hoffech iaith neu fformat gwahanol, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ffonio **029 2089 8998** neu anfon e-bost at **petition@wales.gsi.gov.uk**

## Darllenwch hyn cyn llenwi'r ffurflen

Gall y Pwyllgor Deisebau edrych ar y rhan fwyaf o'r deisebau a ddaw i law Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fodd bynnag, dim ond y deisebau y mae ganddo'r pŵer i wneud rhywbeth amdanynt y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried. Mae hyn yn golygu na fydd yn gallu ystyried penderfyniadau awdurdodau lleol na materion nad ydynt wedi'u datganoli (h.y. cyfrifoldeb Senedd neu Lywodraeth y DU).

Os nad ydych yn siŵr ynglŷn â hyn, cofiwch gysylltu â'r tîm deisebau drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y ffurflen hon. Bydd y tîm yn fodlon ymchwilio i hyn ar eich rhan ac yn eich cynghori ar y lle gorau i gyflwyno'ch deiseb os bydd yn ymwneud â rhywbeth na all Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried.

## 1. Geiriad y ddeiseb

- Dylai geiriad y ddeiseb nodi'n glir yr hyn rydych am i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei wneud.
- Cofiwch gadw'r geiriad hwn yn fyr (brawddeg neu ddwy).
- Mae croeso i chi roi rhagor o wybodaeth i ni ond dylid ei nodi ar wahân (darllenwch y blwch 'Rhagor o wybodaeth' isod).
- Dylai geiriad eich deiseb ddechrau gyda 'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ...' neu 'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ...'

**Nodwch eiriad eich deiseb yma:**

## 2. A ydych am i'ch deiseb gael ei rhoi ar y we fel e-ddeiseb?

Gallwn roi eich deiseb ar y we fel e-ddeiseb er mwyn gallu casglu llofnodion ar-lein.

Nodwch a ydych am i'r ddeiseb hon gael ei rhoi ar y we fel e-ddeiseb.

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych am i'ch deiseb gael ei rhoi ar y we fel e-ddeiseb, pa mor hir yr hoffech ei gadael ar agor er mwyn casglu llofnodion?

Nodwch am sawl wythnos neu fis yr hoffech gasglu llofnodion. Fel arall, nodwch y dyddiad yr hoffech roi'r gorau i gasglu llofnodion. Dim ond un o'r blychau isod y dylech ei lenwi.

| | |
|---|---|
| **Misoedd** | |
| **Wythnosau** | |
| **Dyddiad penodol** | |

## 3. Rhagor o wybodaeth

Cofiwch roi rhagor o wybodaeth sy’n egluro’r canlynol:

– Pam rydych am gychwyn y ddeiseb hon
– Y camau rydych am i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymryd
– Unrhyw gamau rydych chi wedi eu cymryd eisoes, e.e. manylion unrhyw lythyrau rydych wedi’u hanfon at Lywodraeth Cymru a llythyrau rydych wedi’u derbyn ganddi.

Bydd y wybodaeth hon yn ymddangos gyda’ch deiseb ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd y Pwyllgor Deisebau hefyd yn gallu eu gweld wrth ystyried eich deiseb.

– Dylid cadw’r wybodaeth hon at ddim mwy na 300 o eiriau
– Os hoffech roi mwy o wybodaeth am eich deiseb, cewch amgáu datganiad hirach gyda’r ffurflen hon. Dylid cadw at ddim mwy na 1,000 o eiriau
– Cewch gynnwys cysylltiad â gwefan hefyd os ydych o’r farn y byddai hynny’n ddefnyddiol.

**Nodwch ragor o wybodaeth yma:**

## 4. Eich manylion

Mae angen enw a chyfeiriad y prif ddeisebydd – sef y person sy'n gyfrifol am gynnal y ddeiseb. Cyhoeddir yr enw hwn gyda'r ddeiseb ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os ydych yn cyflwyno deiseb ar ran grŵp neu sefydliad, dylech gynnwys manylion y person sy'n fodlon gweithredu fel person cyswllt ar gyfer y grŵp neu'r sefydliad dan sylw.

**Enw'r prif ddeisebydd**

**Cyfeiriad**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn**

Llinell dir

Ffôn symudol

**Y sefydliad y cyflwynir y ddeiseb hon ar ei ran (os yn berthnasol)**

Cyhoeddir enw'r prif ddeisebydd, neu'r sefydliad, ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ni chyhoeddir y manylion cyswllt a dim ond er mwyn hysbysu'r prif ddeisebydd o hynt a helynt y ddeiseb a chael adborth ar ddiwedd y broses y defnyddir y wybodaeth hon.

## 5. Anfonwch eich deiseb arfaethedig atom

Anfonwch eich ffurflen drwy e-bost at **petition@wales.gsi.gov.uk**

Fel arall, mae croeso i chi ei hanfon at:

**Y Pwyllgor Deisebau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

## 6. Beth nesaf?

Bydd un o aelodau'r tîm deisebau'n cysylltu â chi ymhen ychydig ddyddiau ar ôl cael y ffurflen er mwyn trafod y camau nesaf.

Dyma pryd y byddant yn trafod yr opsiwn o ddefnyddio ein system e-ddeisebau.

## 7. Cysylltu â ni

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm deisebau.

E-bost: **petition@wales.gsi.gov.uk**

Ffôn: **029 2089 8998**

Rydym yn croesawu gohebiaeth drwy e-bost yn bennaf gan fod hyn yn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol a chynaliadwy i chi.



